

Carreg Cennen



Castell Carreg Cennen



Llygad Llwcwr



Pam Dewis Cerdded?

Mwynhewch un o ddwy daith gerdded gylchol o amgylch y castell ysbennnydd hwn yn Sir Gaerfyrddin, sydd wedi'i leoli'n uchel uwchben Afon Cennen ac sydd bron â bod mil o droedfeddi uwchben lefel y môr ar ochr orllewinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Ychydig iawn o gestyll yn Ewrop sy'n gallu ymffrostio ynghylch lleoliad mwy ysbennnydd na hyn. Gofalwch eich bod yn rhentu tortsh i fynd i archwilio ogof y castell.



Pa mor bell?

Dwy daith gylchol gydag arwyddion; mae'r daith fer yn 2.7km o hyd (1.6 milltir) ac mae'r daith hir yn 6km o hyd (3.7 milltir).



Pa mor anodd?

Mae'r daith gylchol fer yn codi tua 88 metr (288 troedfedd) ar lwybrau da a lonydd bach y wlad. Mae'r daith gylchol hir yn codi tua 200 metr (656 troedfedd) ac yn fwy heriol, gan ddilyn traciau garw a lonydd bach y wlad. Mae'r ddwy daith gerdded yn eithaf serth mewn mannau ond maent yn darparu diddordeb parhaus a golygfeydd godidog o'r castell a'r dirwedd gyfagos.



Y Man cychwyn - Caffi/siop y Castell.



Y Maes Parcio - Y maes parcio gyferbyn â Fferm Carreg Cennen



Trafnidiaeth Gyhoeddus - Llandeilo 5km/3 milltir i ffwrdd




Lluniaeth - ✓

- 1 Saif y castell ar frigiad creigiog sy'n allgraig o galchfaen carbonifferaidd yng nghanol yr Hen Dywodfaen Goch sy'n fwy hynafol. Mae tystiolaeth wedi cael ei chanfod sy'n dangos bod aneddiad yn bodoli ar y safle hwn yn y cyfnod cynhanesyddol. Roedd safle'r castell yn gadarnle yng Nghymru ymhell cyn i Arglwyddi Saesneg adeiladu'r castell presennol yn y 13eg ganrif.

- 2 Mae'r coetir sy'n cynnwys coed ynn a'r ddraenen wen yn bennaf ar y priddoedd tenau dros galchfaen, yn arwain at goetir derw i lawr y llethr ar yr hen dywodfaen goch.

Mannau o ddiddordeb



- 3 Mae mwy o rywogaethau pryfed yn byw ar goed derw nag unrhyw goeden frodorol arall. Yn ogystal â'r pryfed, mae'r mes yn darparu ffynhonnell fwyd werthfawr ar gyfer amrywiaeth o anifeiliaid. Yn aml roedd gan y cominwyr yr hawl i fesobrau a oedd yn eu galluogi i ollwng eu moch yn rhydd yn y coetir derw i chwilio am fes.

- 4 Y naill ochr a'r llall i'r llwybr y mae dau adfail a llwybr cerrig rhyngddynt. Mae'r coetir yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac mae'n lle da i chwilio am adar y goedwig megis ysguthan, delor y cnau, titw tomos las a'r dryw bach.

- 5 Mae amrywiaeth gyfoethog o flodau a rhedyn yn y perthi o dan y coed cyll, megis tafod yr hydd, gwibredyn, rhosyn coch gwyllt, fioled, bysedd y cŵn a saets gwyllt.

- 6 Edrychwch am y titw penddu, ji-binc, llinos bengoch a dryw bach y coed yn y blanhigfa fach o goed conwydd ac yn hen linellau'r perthi sy'n llawn tyfiant.

- 7 Mae hwn yn lle da i graffu ar yr awyr i chwilio am yr aderyn ysglyfaethus mwyaf enwog yng Nghymru, sef y barcud coch. Efallai y byddwch hefyd yn gweld boda. Mae gan y ddau gri uchel sy'n swinio fel mewian ac mae'r adar yn aml yn cael eu clywed cyn iddynt gael eu gweld.

- 8 Nid yw Beddau'r Derwyddon, fel y mae'r enw'n ei awgrymu, yn feddau i'r derwyddon, ond mewn

gwirionedd twmpathau ydynt wedi'u creu gan ddyn sydd â ffosydd bas o'u hamgylch, sef cwningaroedd canoloesol ar gyfer cenhedlu cwningod ar gyfer bwyd.

- 9 Ar ochr y ffordd sy'n mynd i fyny'r rhiw y mae'r garreg rud galed, a thros y wal y mae'r haenau o galchfaen o gyfnod y Carbonifferaidd.

- 10 Mae'r tri phant mawr, dwfn yn y tir yn y fan hon wedi'u creu wrth i'r ceudyllau yn y calchfaen o dan y ddaear grebachu.

- 11 Roedd yr odyd calchfaen mawr adfeiliedig yn cael ei ddefnyddio i ddarparu calch poeth i wneud sment a gwrtaith i'r caeau. Mae'r chwarel ar gyfer y calchfaen yn union y tu ôl i'r odyd.

- 12 Gyferbyn â'r odyd calchfaen y mae'r ogof a elwir yn Llygad Llwcwr. Dyma darddle Afon Llwcwr sy'n cyrraedd y môr 30 cilomedr i ffwrdd, ac mae'n dod yn un o aberoedd mwyaf a phwysicaf Cymru, gan gefnogi miloedd o adar parhaol a rhai mudol.

- 13 Gellir gweld heidiau o'r coch dan adain a'r aderyn eira yn y caeau yn yr ardal hon yn y gaeaf.

#DymaSirGar

#ThisisCarmarthenshire

darganfodsirgar.com • discovercarmarthenshire.com